**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

- Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 (y "Rheoliadau Gwahanu Gwastraff")
- Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023 (y "Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi")
- Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 (y "Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos").

O hyn ymlaen, cyfeirir at y pecyn o offerynnau statudol uchod gyda'i gilydd fel y "Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle".

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adnoddau'r Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

- Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023
- Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023
- Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023.

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS**
**Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD**

**7 Tachwedd 2023**

## RHAN 1

### 1 Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cynrychioli un diwygiad polisi a ddarperir drwy becyn o dri darn o is-ddeddfwriaeth gysylltiedig. Ar y cyd, prif ddiben y rhain yw gwella lefel ac ansawdd yr ailgylchu o safleoedd annomestig, lleihau faint o wastraff a anfonir i'w losgi ac i safleoedd tirlenwi, a sicrhau mwy o gysondeb o ran y ffordd rydym yn casglu ac yn rheoli ailgylchu yng Nghymru.

***Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023***

1.2 Mae'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff yn nodi'r gofynion gwahanu ar gyfer cyflwyno, casglu a thrin gwastraff o safleoedd annomestig yng Nghymru at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd sy'n hybu ailgylchu o ansawdd uchel.

1.3 Mae'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff yn ei gwneud yn ofynnol i bob safle annomestig gyflwyno eu gwastraff ailgylchadwy i'w gasglu mewn ffrydiau penodedig ar gyfer ei ailgylchu. I gyd-fynd â hynny, bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n casglu neu'n trefnu casglu gwastraff o safleoedd annomestig gasglu'r ffrydiau gwastraff penodedig ar wahân i'w hailgylchu a pheidio â'u cymysgu wedi hynny.

1.4 Dyma'r naw deunydd gwastraff ailgylchadwy penodedig y mae angen eu cyflwyno i'w casglu ar wahân, eu casglu ar wahân, a'u cadw ar wahân ar ôl eu casglu, mewn chwe ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân (o leiaf):

- gwydr
- cartonau a’u tebyg[1], metel a phlastig;
- papur a cherdyn;
- gwastraff bwyd (ar gyfer safleoedd sy’n cynhyrchu 5 cilogram neu fwy o wastraff bwyd mewn saith niwrnod olynol);
- cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach (“sWEEE”) heb ei werthu;
- tecstilau heb eu gwerthu.

1.5 Mae'r is-ffracsiynau gwastraff ym mhob un o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy sy'n ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu wedi'u nodi yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff.

1.6 Mae'r gofynion gwahanu yn gymwys mewn perthynas â phob safle heblaw safleoedd domestig a charafannau. Mae esemptiadau cyfyngedig a nodir yn y Rheoliadau Gwahanu Gwastraff fel a ganlyn:

[1] “ystyr “cartonau a’u tebyg” yw pecynwaith cyfansawdd sy’n seiliedig ar ffibr, sef deunydd pecynwaith sydd wedi ei wneud o bapur-fwrdd neu ffibrau papur, wedi ei lamineiddio â phlastig

- Nid yw'n ofynnol i ysbytai gyflwyno gwastraff ar wahân i'w gasglu tan 6 Ebrill 2026;
- Nid oes angen gwahanu gwastraff bwyd o safleoedd sy'n cynhyrchu llai na 5 cilogram o wastraff bwyd mewn saith niwrnod olynol i'w ailgylchu;
- Gwastraff a reolir a gesglir gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau i sicrhau bod priffyrdd perthnasol a thir perthnasol, cyhyd ag y bo'n ymarferol, yn cael eu cadw'n glir o sbwriel.
- Ni chaniateir gosod sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n cynnwys deunydd Categori 1 fel y'u rhestrir yn Erthygl 8, neu ddeunydd Categori 2 fel y'u rhestrir yn Erthygl 9, o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 yn y ffrwd wastraff bwyd a dylid eu gwaredu yn unol â'r ddeddfwriaeth sgil-gynhyrchion anifeiliaid berthnasol.
- Caniateir i wastraff bwyd o fewn ei becynwaith gwreiddiol gael ei gyflwyno i'w gasglu o fewn ffrwd wastraff ailgylchadwy gwastraff bwyd ar yr amod nad yw'n rhesymol ymarferol i'r meddiannydd wahanu'r gwastraff bwyd o'i becynwaith gwreiddiol ac y bydd y gwastraff yn cael ei gludo i gyfleuster, a'i brosesu mewn cyfleuster, ar gyfer ei baratoi i'w ailddefnyddio, neu ei ailgylchu.

1.7 Er mwyn darparu canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff, bydd 'Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân i'w Hailgylchu: Cod Ymarfer Cymru' ("y Cod") yn cael ei gyhoeddi o dan adran 45AB o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn fuan ar ôl i'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff gael eu gwneud.

***Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023***

1.8 Mae'r Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi yn gwahardd llosgi mathau penodedig o wastraff ailgylchadwy a gesglir ar wahân, neu eu dodi ar safle tirlenwi. Bydd hyn yn sicrhau bod gwastraff a gyflwynir ac a gesglir ar wahân yn unol â'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff yn cael ei ailgylchu fel y bwriadwyd.

1.9 Dyma'r mathau o wastraff:

- bwyd;
- cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach;
- cerdyn;
- cartonau;
- tecstilau penodol (bydd tecstilau heb eu gwerthu yn cael eu gwahardd rhag cael eu llosgi, bydd pob tecstil yn cael ei wahardd rhag cael ei ddodi ar safle tirlenwi).

1.10 Yn ogystal â hyn, bydd gwaharddiad ar ddodi unrhyw wastraff pren (p'un a

---

polythen neu bolypropylen dwysedd isel, ac y gall fod iddo haenau o ddeunyddiau eraill, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw

gaiff ei gasglu ar wahân ai peidio) ar safle tirlenwi.

1.11 Mae'r Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi yn ehangu ar y newidiadau a weithredir gan Reoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 a oedd yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 i wahardd y deunyddiau a ganlyn a gesglir ar wahân rhag cael eu llosgi a'u dodi ar safle tirlenwi:

- gwydr;
- plastig;
- metel;
- papur.

1.12 Cyflawnir y gwaharddiad newydd drwy ychwanegu mathau penodedig ychwanegol o wastraff at ddarpariaethau yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 y bernir odanynt fod amodau wedi eu cynnwys ym mhob trwydded amgylcheddol sy'n awdurdodi safle tirlenwi, peiriant llosgi gwastraff bach, peiriant cydlosgi gwastraff, neu beiriant llosgi gwastraff.

1.13 Yr amod perthnasol yw na chaniateir i weithredwr cyfleuster o'r fath dderbyn mathau penodedig o wastraff i'w llosgi nac i'w tirlenwi os yw'r gwastraff hwnnw wedi ei gasglu ar wahân at ddiben ei baratoi i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu.

***Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Cymru) 2023***

1.14 Mae'r Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o dan adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a gaiff ei chychwyn gan Orchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023 drwy gyflwyno sancsiynau sifil a phwerau ymchwilio mewn perthynas â throseddau o dan yr adran honno.

1.15 Bydd hyn yn sicrhau nad yw gweithleoedd yn gosod technolegau i hwyluso gwaredu gwastraff bwyd i garthffos fel ffordd o osgoi'r gofyniad i wahanu gwastraff bwyd i'w ailgylchu. Bydd hefyd yn atal safleoedd annomestig sy'n gwaredu eu gwastraff bwyd yn y modd hwn ar hyn o bryd rhag gwneud hynny pan ddaw'r Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos i rym.

1.16 Gall gwaredu gwastraff bwyd yn uniongyrchol i garthffos orlwytho'r system garthffosiaeth, achosi rhwystrau ac arwain at golli maethynnau ac adfer ynni gwerthfawr.

***Sancsiynau Sifil***

1.17 Mae'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff, y Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi a'r Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos yn cyflwyno cyfundrefn sancsiynau sifil i alluogi'r rheoleiddiwr i osod cosbau ariannol penodedig,

cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau am beidio â chydymffurfio mewn perthynas â throseddau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

1.18 Y rheoleiddiwr at ddibenion y Rheoliadau Gwahanu Gwastraff yw Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC"). Y rheoleiddiwr ar gyfer y Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi yw CNC, ac eithrio mewn cysylltiad â pheiriannau llosgi gwastraff bach pan fo'r Awdurdod Lleol ar gyfer yr ardal y mae'r peiriant perthnasol wedi'i leoli ynddi yn rheoleiddiwr. Y rheoleiddiwr at ddibenion y Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos yw'r Awdurdod Lleol ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi.

## 2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae'r Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi yn gweithredu drwy farnu bod yr holl drwyddedau amgylcheddol a roddir o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, sy'n awdurdodi safle tirlenwi neu beiriant llosgi, yn cynnwys amod sy'n gwahardd tirlenwi neu losgi (fel y bo'n berthnasol) y deunyddiau gwastraff penodedig a gesglir ar wahân. Bydd yr amod hwn yn gymwys i bob trwydded amgylcheddol, gan gynnwys y rhai a roddwyd cyn gwneud y Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi, ac o ganlyniad gellid dehongli'r darpariaethau fel rhai sy'n cael effaith ôl-weithredol i'r graddau y maent yn effeithio ar ddigwyddiadau neu drafodion yn y gorffennol. Hynny yw, maent yn addasu telerau trwyddedau amgylcheddol a roddwyd cyn i'r Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi ddod i rym, er mai dim ond ar ôl i'r Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi ddod i rym y gellir cyflawni troseddau sy'n gysylltiedig â'r amodau trwydded newydd.

2.2 Mae Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 4) 2023 ("Gorchymyn Cychwyn") yn dod ag adran 34D o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i rym ar 6 Ebrill 2024. Ni fydd y drosedd yn adran 34D mewn grym ar yr adeg y gwneir y Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos, fodd bynnag, mae adran 68(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau bod y pwerau i wneud gorchmynion yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ar gael i Weinidogion Cymru cyn hyn. Yn ogystal â hyn, mae'r dyddiad dod i rym ar gyfer adran 34D o dan y Gorchymyn Cychwyn yn sicrhau y bydd hynny mewn grym ar yr adeg y daw'r Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos i rym.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

### *Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023*

3.1 Mae Rhan 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mewnosod adrannau 45AA a 45AB yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990"). Mae adran 45AA yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru

wneud rheoliadau i greu ‘gofynion gwahanu’ sy'n ymwneud â'r dyletswyddau a gynhwysir yn adran 45AA(1), (2) a (4). Mae adran 45AA(10) yn caniatáu i Weinidogion Cymru greu eithriadau i'r dyletswyddau yn adran 45AA(1), (2) a (4).

3.2 Mae adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (“Deddf 1999”) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1990 a Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladolo dan Ddeddf 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhinwedd erthygl 3(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau bod y gofynion gwahanu o dan adran 45AA wedi'u hintegreiddio'n briodol i'r gyfundrefn wastraff bresennol.

3.3 Mae adrannau 36(2), 39, 42, 45 a 52 i 55 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (“RESA 2008”) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru greu cyfundrefn sancsiynau sifil mewn perthynas â throseddau a gynhwysir mewn deddfiadau a nodir yn Atodlen 6 i RESA 2008. Mae hyn yn cynnwys troseddau o dan Ran 2 o Ddeddf 1990, sy'n cynnwys adran 45AA.

3.4 Mae'r pŵer a gynhwysir yn RESA 2008 yn bŵer i wneud gorchymyn, tra bod y pwerau yn Neddf 1990 a Deddf 1999 yn bwerau i wneud rheoliadau. Mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol.

3.5 Mae rheoliadau a wneir o dan adran 45AA yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn rhinwedd adran 160A(2) a (5) o Ddeddf 1990, adran 2(8) o Ddeddf 1999 ac adran 61(2) o RESA 2008.

***Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023***

3.6 Mae Rhan 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mewnosod adran 9A ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Mae adran 9A, ynghyd ag adran 9, yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwahardd, neu reoleiddio fel arall, llosgi mathau penodedig o wastraff, neu ei ddodi ar safle tirlenwi yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r pŵer i ddiwygio rheoliadau a wneir o dan adran 2 o Ddeddf 1999.

3.7 Mae adrannau 39, 42, 52 i 55 a 62(2) o RESA 2008 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru greu cyfundrefn sancsiynau sifil mewn perthynas â throseddau a gynhwysir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir yn unol â

deddfiadau a gynhwysir yn Atodlen 7 i RESA 2008. Mae hyn yn cynnwys troseddau a gynhwysir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan adran 2 o Ddeddf 1999, sy'n cynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

3.8 Gan fod y drosedd y mae'r gyfundrefn sancsiynau sifil yn berthnasol iddi wedi'i gwneud o dan adran 2 o Ddeddf 1999, mae'r Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi yn enwi'r pŵer hwn gan fod y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 62(2) o RESA 2008 yn ddibynnol ar bŵer cyfatebol i greu trosedd. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhinwedd erthygl 3(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.9 Mae'r pŵer a gynhwysir yn RESA 2008 yn bŵer i wneud gorchymyn, tra bod y pwerau yn Neddf 1990 a Deddf 1999 yn bwerau i wneud rheoliadau. Mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol.

3.10 Mae'r Rheoliadau Llosgi a Thirlenwi yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn rhinwedd adran 2(8) o Ddeddf 1999, adran 62(3) o RESA 2008 ac adran 20(3) o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010.

***Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023***

3.11 Mae Rhan 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mewnosod adran 34D yn Neddf 1990. Nid yw'r Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos yn dibynnu ar unrhyw un o'r pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn adran 34D.

3.12 Mae adrannau 36(2), 39, 42, 45 a 52 i 55 o RESA 2008 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru greu cyfundrefn sancsiynau sifil mewn perthynas â throseddau a gynhwysir mewn deddfiadau a nodir yn Atodlen 6 i Ddeddf 2008. Mae hyn yn cynnwys troseddau o dan Ran 2 o Ddeddf 1990, sy'n cynnwys adran 34D.

3.13 Mae adran 55(3) o RESA 2008 yn cynnwys pŵer i Orchmynion o dan RESA 2008 roi pwerau mynediad, chwilio neu ymafael.

3.14 Mae'r Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn rhinwedd adran 61(2) o RESA 2008.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yw cynyddu lefel ac ansawdd y deunyddiau ailgylchadwy a gesglir o safleoedd annomestig a lleihau faint o wastraff ailgylchadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a llosgi. Byddant hefyd yn gwella cysondeb o ran sut mae gwastraff yn cael ei gasglu a'i reoli drwy sicrhau bod casgliadau o safleoedd annomestig yn cyd-fynd â'r ffordd y mae gwastraff yn cael ei gasglu o gartrefi ar draws y rhan fwyaf o Gymru, a thrwy hynny leihau dryswch i ddinasyddion.

4.2 Mae'r Rheoliadau Gwahanu Gwastraff a'r Gorchymyn Gwastraff Bwyd i Garthffos yn gymwys mewn perthynas â phob safle heblaw eiddo domestig a charafannau; gan gynnwys pob busnes, safle sector cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru. Mae'r gofynion gwahanu hefyd yn gymwys i gasglwyr a phroseswyr gwastraff ac ailgylchu sy'n rheoli gwastraff a gesglir o safleoedd annomestig. Mae eithriadau cyfyngedig, a nodir yn y Rheoliadau Gwahanu Gwastraff ac a eglurir ym mharagraff 1.6.

4.3 Bydd y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn adeiladu ar lwyddiant y broses o ddiwygio ailgylchu mewn cartrefi, lle mae'r gyfradd uchel o ailgylchu yng Nghymru yn arbed tua 400,000 tunnell o garbon y flwyddyn ac yn darparu deunyddiau pwysig yn ôl i'r economi. Bydd cyflwyno'r dull gweithredu i weithleoedd Cymru yn helpu i liniaru'r argyfwng hinsawdd a natur ac yn cyflymu'r cynnydd tuag at economi gryfach, wyrddach.

4.4 Bydd y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn helpu i gyflawni ymrwymiadau Cymru i gyrraedd nod dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, a dim gwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Mae'r gwaith modelu a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (“RIA”) yn cadarnhau y bydd cyflwyno'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn arwain at arbedion sylweddol i'r amgylchedd ac economi Cymru a bod yr opsiwn polisi a ffefrir sy'n cael ei weithredu drwy'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn darparu'r manteision cyffredinol uchaf (cyfanswm y gost). Bydd y diwygiadau yn arwain at ostyngiadau cyffredinol mewn allyriadau sy’n gyfwerth â $CO_2$ a $NO_2$ o -1,298,000 tunnell o $C0_2$ a -5,200 tunnell o $NO_2$ o gymharu â'r llinell sylfaen.[2]

4.5 Bydd y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cefnogi cynnydd Cymru tuag at economi gylchol, lle caiff adnoddau eu defnyddio cyhyd â phosibl, gan osgoi gwastraff, a chaiff deunyddiau eu hadfer a'u hadfywio ar ddiwedd eu hoes. Mae defnydd a gwastraff cysylltiedig yn cyfrannu'n allweddol at yr allyriadau sy'n cynhesu'r blaned, y dirywiad mewn bioamrywiaeth ac mae hefyd yn niweidiol i iechyd y cyhoedd.

4.6 Bydd cadw deunyddiau ailgylchadwy ar wahân yn arwain at sicrhau bod deunyddiau ailgylchu o ansawdd uwch yn cael eu casglu, sy'n fwy tebygol o gael eu defnyddio mewn gweithrediadau gweithgynhyrchu. Gyda chost

[2] Llywodraeth Cymru, Effaith Reoleiddiol Opsiynau i Gynyddu Cyfraddau Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru, 2023, Ailgylchu yn y gweithle | LLYW.CYMRU, Tabl 19 a 3.92.

deunyddiau yn cyfrannu at gostau byw cynyddol, bydd cadw deunyddiau a ailgylchwyd o ansawdd uchel yn economi Cymru yn fwy effeithiol yn gwella effeithlonrwydd adnoddau, gan wella diogelwch deunyddiau a gwytnwch cadwyni cyflenwi a lleihau dibyniaeth ar echdynnu adnoddau crai.

4.7 Bydd cadw deunyddiau ailgylchadwy ar wahân yn arwain at sicrhau bod deunyddiau ailgylchu o ansawdd uwch yn cael eu casglu, sy'n fwy tebygol o gael eu defnyddio mewn gweithrediadau gweithgynhyrchu. Gyda chost deunyddiau yn cyfrannu at gostau byw cynyddol, bydd cadw deunyddiau a ailgylchwyd o ansawdd uchel yn economi Cymru yn fwy effeithiol yn gwella effeithlonrwydd adnoddau, gan wella diogelwch deunyddiau a gwytnwch cadwyni cyflenwi a lleihau dibyniaeth ar echdynnu adnoddau crai.

4.8 Ar lefel macro-economaidd, dylai'r diwygiadau hyn arwain at y manteision a ganlyn:

- Creu cyfleoedd ar gyfer swyddi a hyfforddiant yn y sector rheoli gwastraff. Mae'r gwaith modelu yn nodi y bydd y diwygiadau hyn yn cynnal 2,582 o swyddi ar gyfartaledd yn y sector rheoli gwastraff yn ystod cyfnod 2024-33[3].
- Creu arbedion cyffredinol i economi Cymru, er enghraifft drwy gyflenwi deunydd ailgylchu o ansawdd uwch sy'n gofyn am lai o brosesu ac yn osgoi costau llosgi a thirlenwi. Mae'r arbedion cyffredinol i economi Cymru wedi'u modelu ar werth presennol net (NPV) o £186.9 miliwn dros ddeng mlynedd – 2024-2033[4].
- Cyflymu'r cynnydd tuag at economi gylchol - lle caiff deunyddiau eu defnyddio ac osgoi gwastraff – drwy fusnesau gweithgynhyrchu Cymru yn defnyddio deunyddiau ailgylchu o ansawdd uchel a gesglir yng Nghymru.
- Darparu mwy o sicrwydd o ran cyflenwi adnoddau a gwytnwch y gadwyn gyflenwi i'r sector gweithgynhyrchu, drwy gasglu deunydd o ansawdd uchel yn fwy effeithiol a all fynd yn ôl i economi Cymru.
- Gwella ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles yn y tymor byr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Mae casglu deunydd o ansawdd uchel drwy gasglu gwastraff ar wahân yn debygol o gefnogi'r gwaith o gadw deunydd o fewn economïau Cymru a'r DU – gan arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[5].

[3] Llywodraeth Cymru, Effaith Reoleiddiol Opsiynau i Gynyddu Cyfraddau Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru, 2023, Ailgylchu yn y gweithle | LLYW. CYMRU, 3.97.
[4] Llywodraeth Cymru, Effaith Reoleiddiol Opsiynau i Gynyddu Cyfraddau Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru, 2023, Ailgylchu yn y gweithle | LLYW. CYMRU, Tabl 41. Nid yw'r cyfrifiad hwn yn cynnwys trethi, gan fod trethi'n gweithredu fel trosglwyddiadau rhwng gwahanol endidau yn hytrach nag fel cost gyffredinol net – mae cynnydd yng nghyfanswm y dreth gwarediadau tirlenwi a delir yn gost i gynhyrchwyr gwastraff Cymru, ond mae'n incwm i Lywodraeth Cymru ac felly'n niwtral o fewn costau a manteision cyffredinol y system.
[5] Joe Papineschi, Emma Tilbrook, a Luke Emery, Eunomia, *Review of the Welsh Government Collections Blueprint* (2016), https://www.eunomia.co.uk/reports-tools/review-of-the-welsh-government-collections-blueprint/.

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy wella effeithlonrwydd adnoddau, lleihau allyriadau carbon a lleihau'r ddibyniaeth ar echdynnu adnoddau crai - mae'r argyfwng hinsawdd a natur yn effeithio ar bawb, ond bydd yr effeithiau negyddol yn cael eu teimlo'n anghymesur gan grwpiau penodol, fel pobl hŷn, pobl anabl, pobl ifanc ac aelwydydd incwm isel.[6] Mae gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn rhan hanfodol o liniaru'r effeithiau negyddol ar y cymunedau mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

4.9 Byddai peidio â gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cyfyngu ar allu Cymru i gyrraedd yr ymrwymiad ynghylch dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, a dim gwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050. Gallai Cymru hefyd fod mewn perygl o syrthio y tu ôl i wledydd eraill y DU. Mae gan yr Alban reoliadau tebyg eisoes mewn grym ac mae Llywodraeth y DU wrthi'n llunio deddfwriaeth debyg ar gyfer Lloegr[7].

4.10 Ar hyn o bryd mae Cymru'n perfformio'n well na gwledydd eraill y DU, ac yn ôl y dadansoddiad diweddaraf a gyhoeddwyd, mae'n drydydd yn y byd ar gyfer ailgylchu gwastraff cartrefi. Felly, bydd gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru yn atgyfnerthu ein safle fel arweinydd byd-eang ym maes ailgylchu ac ailddefnyddio.

## 5 Ymgynghori

*Ymgynghori ffurfiol*

5.1 Mae cydweithio â rhanddeiliaid ac adborth oddi wrthynt wedi rhoi mewnbwn hanfodol wrth ddiffinio'r ffordd o fynd ati o ran y polisi. Mae hyn yn cynnwys, yn fwyaf diweddar, er enghraifft, lunio cynigion polisi diwygiedig ar gyfer cyflwyno ffrydiau a safleoedd gwastraff penodol (ysbytai) fesul cam, y dyddiad dod i rym a chymesuredd y gyfundrefn orfodi.

5.2 Mae'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn adeiladu ar dros ddegawd o waith ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ar waith datblygu polisi gwahanu yn y tarddiad sy'n dyddio'n ôl i 2009 o leiaf.

5.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n helaeth ar y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle dros nifer o flynyddoedd ac wedi ymgysylltu'n

[6] Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, "Effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd a llesiant", Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021, https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/11/Climate-Change-infographics-Cym-4.pdf.

[7] Gweler Rheoliadau Gwastraff yr Alban 2012, Bil yr Amgylchedd (Yr Alban) 2023 ac ymgynghoriad DEFRA ar sicrhau cysondeb o ran casglu ar gyfer Lloegr, https://consult.defra.gov.uk/waste-and-recycling/consistency-in-household-and-business-recycling/.

barhaus â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol (gan gynnwys CNC a llywodraeth leol) wrth ddatblygu'r polisi.

**2009 - *Ymgynghoriad Tuag at Ddyfodol Diwastraff***

5.4 Roedd yr ymgynghoriad ar y ddogfen bolisi hon yn cynnwys: "*Er mwyn sicrhau lefel uchel o ailgylchu, mae angen inni wneud yn siŵr bod ein holl ddeunyddiau ailgylchu yn cael eu gwahanu yn y tarddiad fel eu bod yn lân ac o werth uchel. Ein nod yw datblygu system gasglu effeithlon ac effeithiol i wahanu gwastraff masnachol a diwydiannol cymysg*."

5.5 Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori:

- Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori ledled Cymru, gyda rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol / trydydd sector yn cymryd rhan;
- Ymgynghoriad wedi'i dargedu at bobl ifanc;
- Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a oedd yn agored i bob aelod o'r cyhoedd.

5.6 Dylanwadodd yr adborth ar y ddogfen strategaeth derfynol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, gan ddangos cefnogaeth gyhoeddus gref i'r nodau cyffredinol a'r angen i leihau gwastraff fel cam gweithredu â blaenoriaeth.

***2013-2014 - Ymgynghoriad Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd***

5.7 Ymgynghorwyd ar y gofynion gwahanu a chasglu gwastraff mewn ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd drwy'r isod:

- Pedwar digwyddiad ymgynghori rhanbarthol a gynhaliwyd ar gyfer y cyhoedd;
- Gweithdai rhanddeiliaid gan gynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Adnewyddu'r Economi a Masnach Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cymdeithas Siopau Cyfleustra, a Chonsortiwm Manwerthu Cymru / Consortiwm Manwerthu Prydain;
- Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar-lein a oedd ar agor i bawb;
- Cyfarfodydd un-i-un gyda llawer o bartïon â diddordeb, gan gynnwys CNC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd, Yr Ymddiriedolaethau Natur, Dŵr Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

5.8 Roedd 68% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r pum mesur arfaethedig a ganlyn:

- ymestyn y gofyniad ar gyfer casglu ar wahân i gynnwys deunyddiau pellach;
- cyflwyno gofyniad i wahanu gwastraff gan gynhyrchwyr gwastraff heblaw cartrefi;
- gwahardd ynni o wastraff ar gyfer deunyddiau allweddol;

- gwahardd deunyddiau allweddol o safleoedd tirlenwi; a
- gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd.

5.9 Fe wnaeth yr ymatebion hyn helpu i lywio datblygiad Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n cynnwys pwerau a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

***2019-2020 - Ymgynghoriad ynghylch Mwy nag Ailgylchu, Strategaeth Economi Gylchol Cymru***

5.10 Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys yr amcanion canlynol: "*Er mwyn annog busnesau a'r sector cyhoeddus i ailgylchu mwy o wastraff, ein nod yw ei gwneud yn ofynnol i ailgylchu ymhob lleoliad annomestig, gan wahanu gwastraff yn y ffordd y mae cartrefi eisoes yn ei wneud... " a "Byddwn yn deddfu i sicrhau bod y deunyddiau allweddol y gellir eu hailgylchu wedi'u gwahanu yn cael eu gwahardd rhag safleoedd tirlenwi neu adfer ynni.*"

5.11 Cynhaliwyd y gweithgareddau ymgysylltu canlynol i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth:

- Tua 40 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, gan gynnwys sesiynau gwahoddiad agored a digwyddiadau rhanbarthol wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd penodol a oedd yn cynnwys pobl ifanc, Awdurdodau Lleol, busnesau, y sector gwastraff, grwpiau amgylcheddol, rheoleiddwyr ac academyddion;
- Ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar-lein.

***Ymgynghoriad 2019 ar Cynyddu Ailgylchu ymhlith Busnesau yng Nghymru***

5.12 Casglodd ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos ar ddiwedd 2019 fewnbwn ar ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn:

- Ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr safleoedd annomestig (fel busnesau, elusennau a chyrff y sector cyhoeddus) roi deunyddiau ailgylchadwy penodol allan i'w casglu wedi'u gwahanu oddi wrth ei gilydd ac wedi'u gwahanu oddi wrth wastraff gweddilliol;
- Ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n casglu'r deunyddiau eu casglu mewn casgliadau ar wahân a'u cadw ar wahân;
- Gwahardd llosgi a thirlenwi deunyddiau ailgylchadwy penodedig a gesglir ar wahân;
- Cychwyn gwahardd safleoedd busnes rhag gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd;
- Darparu sancsiynau sifil ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â'r gofynion uchod.

5.13 Daeth cyfanswm o 100 o ymatebion i law gan 96 o wahanol sefydliadau, gan gynnwys busnesau, unigolion, Awdurdodau Lleol, cyrff

anllywodraethol a chymdeithasau masnach. Gwnaeth yr ymgynghoriad hwn lywio’r gwaith o ddatblygu’r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn uniongyrchol.

### *2020-2023 - Ymgyngoriadau ar Ailgylchu yn y Gweithle*

5.14 Rhwng 2020 a 2023 cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfodydd wyneb yn wyneb ag ystod o randdeiliaid; a phum digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ar y dull gweithredu gydag amrywiaeth o sectorau gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol, busnesau, llywodraeth leol, a'r sector cyhoeddus yn ehangach. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar-lein ar y Cod drafft a'r cynigion gorfodi.

5.15 Cyhoeddwyd ymgyngoriadau ar y Cod drafft ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu gwastraff a'r cynigion o ran gorfodi'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle ar 23 Tachwedd 2022 a daeth i ben ar 15 Chwefror 2023. Diben yr ymgyngoriadau hyn oedd gofyn am farn ar fanylion y Cod drafft a'r canllawiau ymarferol y mae'n eu darparu ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu; cyflwyno ffrydiau gwastraff penodedig arfaethedig yn raddol; a chynigion ar gyfer gorfodi'r rheoliadau.

5.16 Gan fod y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cynrychioli cyfraniad sylweddol at weithredu ar y newid yn yr hinsawdd ac ymrwymiad yn *Cymru Sero Net,* lansiwyd y ddau ymgynghoriad yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru. Yna defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgyngoriadau i lywio'r drafft terfynol o'r Cod a'r offerynnau statudol arfaethedig.

5.17 Mae'r dogfennau crynodeb o'r ymatebion yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgyngoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023 ar y Cod drafft (Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu: cod ymarfer Cymru) a dull gorfodi a sancsiynau arfaethedig (Cynigion ar gyfer gorfodi rheoliadau ailgylchu busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru). Cafodd Llywodraeth Cymru 39 o ymatebion i'r ymgynghoriad gorfodi a sancsiynau a 95 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod .

5.18 Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog ar 20 Gorffennaf 2023 yn cadarnhau'r safbwyntiau polisi terfynol ar y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt.

### *Awst-Medi 2023 – Ymgynghoriad ar y rhyngweithio rhwng adrannau 45AA, 46 a 47 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*

5.19 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad pedair wythnos ychwanegol hefyd wedi'i dargedu at Awdurdodau Lleol, CLILC a CNC ym mis Awst 2023. Ei ddiben oedd casglu barn ar ddiwygiad arfaethedig i adran 46 ac adran 47 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i egluro'r sefyllfa pan fo gwrthdaro neu orgyffwrdd rhwng gofynion a osodir gan

hysbysiadau a wneir o dan adrannau 46 neu 47 o Ddeddf 1990 a'r dyletswyddau ynghylch cyflwyno gwastraff ar wahân o dan adran 45AA o Ddeddf 1990. Y cynnig polisi oedd y bydd y dyletswyddau o dan 45AA yn cael blaenoriaeth pan fo gorgyffwrdd neu wrthdaro yn codi. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno â'r diwygiad arfaethedig.

*Ymgynghori ac ymgysylltu yn y dyfodol*

5.20 Bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn parhau â gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, megis rheoleiddwyr a chyrff sy'n cynrychioli'r sector gwastraff a gweithleoedd yn ystod y cyfnod gweithredu.

*Dyletswydd i ymgynghori*

***Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023***

5.21 Nid oes gofynion ymgynghori statudol yn adran 45AA o Ddeddf 1990 at ddiben gwneud rheoliadau o dan yr adran honno.

5.22 O dan adran 2(4) o Ddeddf 1999 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag (a) Cyfoeth Naturiol Cymru (b) y cyrff neu'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, diwydiant, amaethyddiaeth a busnesau bach yn y drefn honno ag y maent yn ystyried eu bod yn briodol ac (c) unrhyw gyrff neu bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

5.23 O dan adran 60 o RESA 2008 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag (a) y rheoleiddiwr y mae'r rheoliadau yn ymwneud ag ef (b) unrhyw sefydliadau yr ymddengys i'r awdurdod perthnasol eu bod yn cynrychioli personau y mae'r cynigion yn effeithio'n sylweddol arnynt, ac (c) unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod perthnasol yn ystyried eu bod yn briodol.

5.24 O dan adran 59(3) o RESA 2008 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud Gorchymyn o dan RESA 2008.

5.25 Mae'r Cod y cyfeirir ato ym mharagraff 1.7 a fydd yn cyd-fynd â'r Rheoliadau Gofynion Gwahanu yn ddarostyngedig i rwymedigaeth o dan adran 45AB(3) o Ddeddf 1990. O dan y Ddeddf honno, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny sy'n briodol yn eu barn hwy cyn cyhoeddi cod ymarfer.

***Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023***

5.26 O dan adran 60 o RESA 2008 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag (a) y rheoleiddiwr y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef (b) unrhyw

sefydliadau yr ymddengys i'r awdurdod perthnasol eu bod yn cynrychioli personau y mae'r cynigion yn effeithio'n sylweddol arnynt ac (c) unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod perthnasol yn ystyried eu bod yn briodol.

5.27 O dan adran 59(3) o RESA 2008 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud Gorchymyn o dan RESA 2008.

***Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023***

5.28 O dan adran 11 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag (a) Cyfoeth Naturiol Cymru (b) pob awdurdod lleol (c) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n agored i fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y rheoliadau y maent yn barnu eu bod yn briodol a (d) unrhyw bersonau eraill y maent yn barnu eu bod yn briodol.

5.29 O dan adran 2(4) o Ddeddf 1999 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag (a) Cyfoeth Naturiol Cymru (b) y cyrff neu'r personau hynny yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, diwydiant, amaethyddiaeth a busnesau bach yn y drefn honno ag y maent yn ystyried eu bod yn briodol ac (c) y cyrff neu’r personau eraill hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

5.30 O dan adran 60 o RESA 2008 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag (a) y rheoleiddiwr y mae'r rheoliadau yn ymwneud ag ef (b) y sefydliadau hynny yr ymddengys i'r awdurdod perthnasol eu bod yn cynrychioli personau y mae'r cynigion yn effeithio'n sylweddol arnynt, ac (c) y personau eraill hynny y mae'r awdurdod perthnasol yn ystyried eu bod yn briodol.

5.31 O dan adran 59(3) o RESA 2008 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn gwneud Gorchymyn o dan RESA 2008.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Opsiynau

6.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru asesiad rheoleiddiol annibynnol o gostau, manteision a risgiau sy'n gysylltiedig ag opsiynau polisi amgen i lywio'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle - Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)8.

6.2 Roedd y gwaith yn cynnwys asesiad o gostau a manteision posibl gweithredu'r cynigion deddfwriaethol a'r effeithiau posibl ar randdeiliaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Mae'r dadansoddiad yn cyflwyno amcangyfrif gorau o gostau a manteision yn seiliedig ar yr

[8] Llywodraeth Cymru, Effaith Reoleiddiol Opsiynau i Gynyddu Cyfraddau Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru, 2023, Ailgylchu yn y Gweithle | LLYW. CYMRU

wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn (gyda ‘lefel gwahanu’ yn cyfeirio at y graddau y mae deunyddiau ailgylchadwy allweddol wedi'u gwahanu i'w casglu):

- Opsiwn 1: Busnes fel arfer: Dibynnu ar fecanweithiau presennol**:** dyma'r llinell sylfaen yr asesir costau a manteision yn ei herbyn. Mae'n cynnwys gofynion deddfwriaethol sy'n bodoli eisoes (er enghraifft, gofynion Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011), Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru a chynllun dychwelyd ernes (DRS) sy'n dechrau yn 2025

- Opsiwn 2: Lefel Isel o Wahanu, Casgliadau ar Wahân, Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd, Gwahardd Llosgi a Thirlenwi Mathau Penodedig o Wastraff

- Opsiwn 3: Lefel Gymedrol o Wahanu, Casgliadau ar Wahân, Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd, Gwahardd Llosgi a Thirlenwi Mathau Penodedig o Wastraff

- Opsiwn 4: Lefel Uchel o Wahanu, Casgliadau ar Wahân, Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffosydd, Gwahardd Llosgi a Thirlenwi Mathau Penodedig o Wastraff.

6.3 Nid yw'r opsiynau a ddadansoddwyd yn yr RIA yn mesur effaith pob offeryn statudol ar wahân ond, yn hytrach, mae'n eu hystyried fel pecyn. Y rheswm am hyn yw bod Opsiynau 2,3 a 4 ond yn wahanol o ran y gofynion sy'n ymwneud â lefel y gwahanu. Mae'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffosydd a gwaharddiadau ar ddeunyddiau ailgylchadwy penodol a gesglir ar wahân rhag cael eu llosgi a'u tirlenwi yn cael eu cymhwyso'n unffurf i bob un o'r opsiynau polisi. Maent yn ddewis ychwanegol er mwyn cynyddu gweithrediad llwyddiannus y polisi ymhellach ond byddant yn cael llai o effaith ar gyfartaledd ar economi Cymru.

6.4 Mae'r costau a'r manteision ar gyfer pob un o'r opsiynau a nodir yn yr RIA wedi'u hasesu o'u cymharu â senario llinell sylfaen “busnes fel arfer” sy'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, gan gynnwys y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r gofynion deddfwriaethol presennol ac arfaethedig. Mae gwaith modelu 2023 yn cadarnhau y bydd cyflwyno'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn arwain at fanteision amgylcheddol ac arbedion sylweddol i economi Cymru. Mae hefyd yn dangos bod yr opsiwn polisi a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yn 2019 (Opsiwn 3) yn darparu'r manteision cyffredinol mwyaf.

## 7 Costau a manteision

7.1 Mae gwaith modelu 2023 yn cadarnhau y bydd y cynnydd mewn ailgylchu o gyflwyno'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn arwain at arbedion costau sylweddol yn gyffredinol a manteision amgylcheddol yng Nghymru a mwy o gyflogaeth a buddsoddiad yn y sector rheoli gwastraff. Opsiwn 3 – sef lefel gymedrol o wahanu, casgliadau ar wahân, gwahardd gwaredu

gwastraff bwyd i garthffosydd, a gwahardd llosgi a thirlenwi mathau penodedig o wastraff - sy'n darparu'r manteision cyffredinol mwyaf (cyfanswm cost isaf) (Tabl 1).

7.2 Disgwylir i'r diwygiadau ddarparu mwy o ddeunydd ailgylchu o ansawdd uwch, sy'n gofyn am lai o brosesu a chostau gwaredu, gan felly sicrhau incwm uwch o werthu deunyddiau o ansawdd uwch a lleihau costau tirlenwi. At hynny, mae deunydd ailgylchu o ansawdd uchel yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio mewn prosesau gweithgynhyrchu gwerth uwch, gan gynhyrchu mwy o fanteision amgylcheddol hefyd.

7.3 Yn gyffredinol, disgwylir i Opsiwn 3 ddarparu cyfanswm arbedion o gymharu â'r llinell sylfaen o £186.9 miliwn o werth presennol net (NPV) dros ddeng mlynedd – 2024-2033[9]. Mae'r budd net sy'n gysylltiedig â gweithredu Opsiwn 3 tua dwywaith maint Opsiwn 2 (£92.7 miliwn). Gallai opsiwn 4 arwain at gostau ychwanegol o gymharu â'r senario busnes fel arfer.

*Tabl 1: Crynodeb o'r Opsiynau – Prif Effeithiau*

| Math o effaith | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | | Opsiwn 3 | | Opsiwn 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Effaith | Effaith | O gymharu ag Opsiwn 1 | Effaith | O gymharu ag Opsiwn 1 | Effaith | O gymharu ag Opsiwn 1 |
| $CO_2e$ (M tunnell) | 1.8 | 0.8 | -1.0 | 0.5 | -1.3 | 0.6 | -1.3 |
| $NO_2$ (tunelli) | 3,665 | 517 | -3,148 | -1,559 | -5,224 | -1,044 | -4,709 |
| Ailgylchu (M tunnell) | 6.13 | 8.41 | 2.27 | 8.45 | 2.31 | 8.36 | 2.23 |
| NPV Amgylcheddol (£M) | £227.9 | £210.1 | -£17.8 | £106.0 | -£121.9 | £116.3 | -£111.6 |
| **Cyfanswm y gost* (£M)** | **£1,914.8** | **£1,822.0** | **-£92.7** | **£1,727.9** | **-£186.9** | **£2,176.2** | **£261.4** |

*Yn eithrio Treth Gwarediadau Tirlenwi a Tholl ar Danwydd
Ffynhonnell: RIA (2023)

7.4 Mae'r gwaith modelu'n dangos y bydd Opsiwn 3 yn cynhyrchu'r manteision amgylcheddol mwyaf, a ddeellir fel y costau amgylcheddol lleiaf (Tabl 1). Mae'n rhag-weld y cynnydd mwyaf mewn ailgylchu o'i gymharu ag opsiynau eraill, sy'n arwain at y gostyngiadau mwyaf o ran allyriadau CO2e a llygredd NO2. At ei gilydd, amcangyfrifir bod Opsiwn 3 yn dod â thua £121.9 miliwn o arbedion cost effaith amgylcheddol rhwng

[9]Nid yw'r cyfrifiad hwn yn cynnwys trethi, gan fod trethi'n gweithredu fel trosglwyddiadau rhwng endidau gwahanol yn hytrach nag fel cost gyffredinol net – mae cynnydd yng nghyfanswm y dreth gwarediadau tirlenwi a delir yn gost i gynhyrchwyr gwastraff Cymru, ond mae'n incwm i Lywodraeth Cymru ac felly'n niwtral o fewn costau a manteision cyffredinol y system.

2024 a 2033 o'i gymharu â'r llinell sylfaen (Opsiwn 1), o'i gymharu â dim ond £17.8 miliwn yn Opsiwn 2 a £111.6 miliwn yn Opsiwn 4.

7.5 Rhagwelir y bydd cyflwyno'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn arwain at fwy o gyflogaeth yn y sector rheoli gwastraff. Roedd gwaith modelu 2023 yn rhag-weld y byddai'r Opsiwn 3 a ffefrir yn cynnal 2,582 o swyddi ar gyfartaledd yn y sector yn ystod y cyfnod 2024-33, 784 o swyddi yn fwy nag yn y senario llinell sylfaen a 311 yn fwy nag yn Opsiwn 2 (Tabl 2). Byddai cyflwyno Opsiwn 4 yn darparu'r manteision cyflogaeth uchaf, ond mae effeithiau economaidd ac amgylcheddol eraill (a ddisgrifir uchod) yn gwneud Dewis 3 yn fwy buddiol i Gymru.

*Tabl 2: Crynodeb o'r Opsiynau – Effeithiau cyflogaeth (swyddi)*

| Math o effaith | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | | Opsiwn 3 | | Opsiwn 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Effaith | Effaith | O gymharu ag Opsiwn 1 | Effaith | O gymharu ag Opsiwn 1 | Effaith | O gymharu ag Opsiwn 1 |
| Cyflogaeth (swyddi) | 1,798 | 2,272 | +473 | 2,582 | +784 | 2,923 | +1,125 |

Ffynhonnell: RIA (2023)

7.6 Mae gwaith modelu 2023 yn dangos y bydd y gofynion gwahanu a orfodir yn unol ag Opsiwn 3 yn arwain at arbedion uwchben y llinell sylfaen ar gyfer gweithleoedd â 5 a mwy o weithwyr. Y trothwy maint y disgwylir i weithleoedd brofi arbedion cost o dan Opsiynau 2 a 4 yw 10+ o weithwyr (Tabl 3). Mae'r gwaith modelu'n dangos, o dan Opsiwn 3, y gallai gweithleoedd â 0-4 o weithwyr ysgwyddo cost ychwanegol o tua £11.40 yr wythnos am gydymffurfio â'r rheoliadau, tra gallai gweithleoedd â 250+ o weithwyr ddisgwyl cymaint â £492.50 mewn arbedion wythnosol. Mae'r patrwm hwn yn deillio o'r ffaith fod y costau gweinyddol a ysgwyddir gan unedau lleol o faint gwahanol yn debyg, ond bod unedau lleol mawr yn gwneud mwy o arbedion oherwydd bod costau rheoli a gwaredu gwastraff is dros symiau mwy o wastraff, ond nid yw'r gost honno yn ystyried y camau y gellir eu cymryd i leihau costau drwy wella effeithlonrwydd adnoddau.

7.7 Mae'r costau a ddangosir ar gyfer unedau lleol llai yn tybio eu bod yn meddiannu eu safleoedd unigol eu hunain ac yn contractio'n unigol ar gyfer gwasanaethau casglu gwastraff. Mewn rhai achosion, bydd gweithleoedd meicro yn meddiannu mannau a rennir lle caiff gwastraff ei reoli'n ganolog a bydd y costau a ysgwyddir yn is na'r rhai a fodelwyd.

7.8 Mae Llywodraeth Cymru yn dod â dulliau i fynd i'r afael â rhwystrau o ran cydymffurfio a lliniaru'r costau y gallai'r polisi eu gosod ar weithleoedd micro. Mae'r mesurau'n cynnwys:

- offer cymorth, ymgynghori uniongyrchol a chymorth hyfforddiant;
- cyngor ar brosiectau caffael cydweithredol i greu cyfleoedd arbed wrth reoli gwastraff ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff yn yr un ardal ddaearyddol;
- annog Awdurdodau Lleol i ystyried darparu gwasanaethau cydgasglu i gynhyrchwyr gwastraff micro sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl neu'n agos atynt;
- annog Awdurdodau Lleol i ystyried darparu mwy o ganolfannau ailgylchu fel safleoedd gollwng (neu safleoedd dod â gwastraff) ar gyfer gwastraff annomestig *(gyda thâl yn cael ei godi)*;
- cymhellion ariannol posibl eraill a gynlluniwyd.

*Tabl 3: Crynodeb o'r Opsiynau – Effaith Costau Ariannol a Gweinyddol Wythnosol fesul uned leol o gasglu deunydd ailgylchu (2029) (£), (mae gwerthoedd negyddol yn dangos arbediad)*

| Senario rheoleiddio | **Band Maint yr Uned Leol (Gweithwyr)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0-4 | 5-9 | 10-19 | 20-49 | 50-99 | 100-249 | 250+ |
| Opsiwn 1 (Llinell sylfaen) | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |
| Opsiwn 2 | £5.10 | £1.27 | -£2.38 | -£6.36 | -£8.66 | -£18.30 | -£392.91 |
| Opsiwn 3 | £11.40 | -£1.51 | -£16.28 | -£37.38 | -£61.61 | -£168.73 | -£492.55 |
| Opsiwn 4 | £20.83 | £10.37 | -£1.01 | -£20.70 | -£44.00 | -£151.70 | -£1,130.99 |

Ffynhonnell: RIA (2023)

### Effeithiau eraill

7.9 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig (IIA), sy'n cwmpasu'r holl ddarpariaethau yn y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle. Mae'r IIA ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn Ailgylchu yn y gweithle | LLYW. CYMRU. Nodir yr adrannau cyhoeddedig o'r IIA a chrynodeb o'r effeithiau posibl isod:

Adran 1 Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

7.10 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor Cymru. O ystyried yr argyfwng hinsawdd a natur, bydd y Rheoliadau Ailgylchu yn

y Gweithle yn cefnogi gweithleoedd i weithredu drwy gadw deunyddiau mewn cylchrediad, sy'n rhan allweddol o'r symud tuag at economi gylchol.

7.11 Mae economi gylchol yn symud oddi wrth ddefnydd untro, gan olygu bod adnoddau'n cael eu defnyddio am gyfnod hirach ac osgoi gwastraff. Mae hyn yn ei dro yn arwain at lai o allyriadau, yn helpu i atal difrod pellach i'r amgylchedd ac yn gwella gwytnwch y gadwyn gyflenwi drwy gasglu deunyddiau o ansawdd uchel y gellir eu bwydo'n ôl i'r economi.

7.12 Bydd sicrhau bod y systemau ar gyfer ailgylchu mewn cartrefi ac mewn gweithleoedd yn cyd-fynd yn agos yn lleihau dryswch ac yn sicrhau mwy o gysondeb i'r rheini sy'n gorfod gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

Adran 8 Casgliadau

7.13 Yn unol ag amcanion Llesiant[10] Llywodraeth Cymru, mae'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cefnogi'r gwaith o adeiladu economi wyrddach yn seiliedig ar ddiwydiannau'r dyfodol yn uniongyrchol ac yn ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

7.14 Drwy fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, bydd y rheoliadau hyn yn dod â manteision amgylcheddol, economaidd ac iechyd pwysig i bobl yng Nghymru, gan greu Cymru iachach. Er enghraifft, bydd pobl yn elwa ar lai o allyriadau carbon sy'n effeithio ar ansawdd aer. Mae ein stori ailgylchu lwyddiannus wedi dod yn destun balchder cenedlaethol.

7.15 Mae'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cyfrannu tuag at Gymru fwy cyfartal gan eu bod yn cyflwyno camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd y rhagwelir y bydd yn effeithio fwyaf ar y cymunedau mwyaf agored i niwed. Bydd hefyd yn creu amgylchedd glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy gyda swyddi a buddsoddiad cysylltiedig yn yr economi gylchol.

Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

7.16 Nodwyd mai’r newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Bydd gweithredu'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles, a'r economi yn y tymor byr a'r tymor hir.

7.17 Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan fod y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn cynnwys ysgolion, colegau a lleoedd eraill y maent yn ymweld â hwy.

[10] “Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant”, *Llywodraeth Cymru*, 2021, https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-datganiad-llesiant-html.

7.18 Fel y maent wedi'i wneud wrth gefnogi cynnydd Cymru ar ailgylchu hyd yma, bydd plant a phobl ifanc yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi ymrwymiadau Cymru i gyrraedd uchelgeisiau diwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050, yn ogystal â chefnogi ein cynnydd tuag at economi gylchol.

<u>Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg</u>

7.19 Bydd y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn dod â manteision amgylcheddol, economaidd ac iechyd pwysig i siaradwyr Cymraeg a Saesneg yng Nghymru fel ei gilydd. Nid oes unrhyw effeithiau y gellir eu rhag-weld ar siaradwyr Cymraeg nac ar yr iaith Gymraeg. O ran helpu i wella canlyniadau ar gyfer yr iaith, bydd yr holl waith cyfathrebu gan Lywodraeth Cymru, ei hasiantau a'r rheoleiddwyr sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle a'u gweithredu yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ynghylch y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle, a gwybodaeth ac offer sydd ar y gweill i gefnogi safleoedd annomestig a'r sector gwastraff i gydymffurfio.

7.20 Mynegodd ymatebydd i'r ymgynghoriad diweddar bryder y gallai'r rheoliadau leihau'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r galw cynyddol am gasglwyr gwastraff preifat. Nodwyd o bosibl nad oes gan gasglwyr gwastraff preifat y gallu i ddelio ag ymholiadau yn Gymraeg oherwydd eu bod yn delio â chasglwyr/broceriaid sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y polisi hwn yn newid patrwm y galw yn sylweddol am wasanaethau casglu gwastraff preifat yn erbyn gwasanaethau casglu gwastraff Awdurdodau Lleol. Bydd gan feddianwyr safleoedd annomestig yr opsiwn o gontractio gyda'u Hawdurdod Lleol ar gyfer y gwasanaeth casglu gwastraff.

## 8 Asesiad o’r Gystadleuaeth

8.1 Mae asesiad o’r gystadleuaeth wedi cael ei gynnal.[11] Diben yr asesiad oedd pennu effaith y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle ar gystadleurwydd busnesau yn y sector gwastraff.

8.2 Roedd yr asesiad o'r gystadleuaeth yn cynnwys arolwg o'r diwydiant gwastraff a chyfweliadau gyda gweithgynhyrchwyr a fydd yn cael eu heffeithio gan y gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffosydd. Gofynnwyd cwestiynau blaengar i'r rhai a gymerodd ran yn yr asesiad o'r gystadleuaeth ynghylch sut yr oeddent yn disgwyl i'w busnesau ymateb i'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

8.3 Casgliad cyffredinol yr asesiad o'r gystadleuaeth oedd er y gallai'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle gael effaith ar y costau i drinwyr/proseswyr gwastraff, nid oes disgwyl iddynt gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth yn niwydiant gwastraff Cymru. Yn yr un modd, er y gallai'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle gael effaith ar allu cyflenwyr technolegau a nwyddau traul sy'n hwyluso gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd i weithredu ym marchnad Cymru, daethpwyd i'r un casgliad am eu goroesiad economaidd.

8.4 Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r effaith bosibl ar gystadleuaeth oherwydd y gwaharddiadau ar y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ychwanegol a gaiff eu gwahanu sy'n mynd i gael eu llosgi a'u tirlenwi. Darperir prawf hidlo cystadleuaeth isod.

8.5 Y prif sectorau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gyflwyno'r gwaharddiadau uchod yw llosgyddion (ynni o beiriannau gwastraff) a safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

8.6 Ar sail y dadansoddiad, daethpwyd i'r casgliad nad oes disgwyl i waharddiad ar wastraff ailgylchadwy a gaiff ei wahanu sy'n mynd i gael ei losgi a'i dirlenwi gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth yng Nghymru.

8.7 Bydd y gwaharddiadau'n effeithio ar bob un o'r busnesau tirlenwi a llosgi yn gyfartal. Er bod disgwyl i safleoedd tirlenwi a llosgyddion weld lleihad o ran symiau gwastraff sy'n dod i mewn, mae gostyngiadau o'r fath yn ddymunol ac yn unol â strategaeth Cymru i leihau gwastraff gweddilliol i ddim.

8.8 Mae effaith y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle ar gynhyrchwyr gwastraff wedi cael ei ystyried ym mharagraffau 7.7-7.9 y Memorandwm Esboniadol hwn, ochr yn ochr â'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i liniaru unrhyw effeithiau gwahaniaethol.

[11] Llywodraeth Cymru, Cynyddu ailgylchu mewn gweithleoedd: asesiad o'r effeithiau ar gystadleuaeth, 2023, [Cynyddu ailgylchu mewn gweithleoedd: asesiad o'r effaith ar gystadleuaeth | LLYW.CYMRU].

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi/llosgyddion mewn perthynas â'r gwaharddiadau [safle tirlenwi/llosgydd] | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad? | Oes/oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Oes/oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf? | Oes/oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill? | Na fyddai/na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Ydy – o bosibl gyda safleoedd tirlenwi – ond dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025 yw'r bwriad polisi datganedig (ers *Yn Gall gyda Gwastraff, 2010*). |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai/na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai/Na fyddai |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi/llosgyddion mewn perthynas â'r gwaharddiadau [safle tirlenwi/llosgydd] | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol** |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy/Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai, oherwydd bydd yn cael ei weithredu ar draws yr holl weithredwyr |

## 9 Adolygiad ar ôl gweithredu

9.1 Mae amrywiaeth o ganlyniadau disgwyliedig o'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle a fydd yn dod â manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol i Gymru a thu hwnt. Gellir eu dosbarthu'n fras yn ddau gategori:

1) **Prif ganlyniadau (uniongyrchol)** – newidiadau yn bennaf yng nghyfraddau ac ansawdd ailgylchu, llosgi a thirlenwi, a darpariaeth gwasanaeth casglu ailgylchu; a
2) **Canlyniadau eilaidd (anuniongyrchol)** – manteision ehangach sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn ailgylchu a gostyngiad mewn llosgi a thirlenwi – er enghraifft, gostyngiad mewn allyriadau carbon (nwyon tŷ gwydr), creu mwy o swyddi, mwy o gysondeb o ran casgliadau ailgylchu, a deunyddiau ailgylchu o ansawdd uwch fel adnoddau gwerthfawr a gaiff eu bwydo'n ôl i economi Cymru.

9.2 Disgwylir i weithgareddau monitro sy'n mesur y gwaith o gyflawni'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle yn erbyn y prif ganlyniadau a ddymunir ddechrau yng nghanol 2025. Byddant yn cael eu hadolygu bob tair blynedd o leiaf, neu'n flynyddol lle bo hynny'n bosibl, yn amodol ar argaeledd data. Gall priodoli'r canlyniadau eilaidd yn benodol i'r rheoliadau yn benodol fod yn fwy heriol. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i fonitro pob un o'r uchod. Bydd y penderfyniad i fonitro unrhyw ganlyniad eilaidd penodol yn dibynnu ar lu o ffactorau a bydd yn cael ei wneud yn amodol ar anghenion ac amgylchiadau penodol.

9.3 Mae'r prif ganlyniadau a fydd yn cael eu monitro yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

1) ***Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023***

- Cyfraddau ailgylchu uwch i gyrraedd y targed ailgylchu o 70% a osodwyd ar gyfer 2025 o ran gwastraff masnachol (y ffigur a fesurwyd yn fwyaf diweddar yw 64% o wastraff masnachol a anfonwyd i'w ailgylchu yn 2018), a dim gwastraff erbyn 2050[12]
- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir nad yw'n cael ei ailgylchu, fesul person (rhan o ddangosydd cenedlaethol rhif 15 o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)[13] – a amlygir fel gostyngiad mewn cyfanswm y deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn y gwastraff gweddilliol a anfonir i'w losgi neu ei dirlenwi
- Cyfradd uchel o gydymffurfio â'r gofynion gwahanu (o leiaf 95% erbyn 2027)
- Ymwybyddiaeth uchel o'r gofynion ailgylchu a'r rhwymedigaethau i gydymffurfio ymhlith y busnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector yr effeithir arnynt (cynnydd o 12% ym mis Mawrth 2023[14] i 80% erbyn mis Mehefin 2024 i 95% erbyn 2027)
- Cefnogaeth uchel i ofynion ailgylchu ymhlith y cynulleidfaoedd targed (canfu arolwg cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 fod 77% o'r ymatebwyr yn gyffredinol o blaid y rheoliadau[15]).

2) ***Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023***

- Llai o dirlenwi (12% yn 2018[16] i <5% yn 2025), yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru
- Llai o losgi/adfer ynni (o 9% yn 2018 i 0% yn 2050, yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru)[17].

---

[12] Noder: rhaid i waith monitro'r targed hwn yn y dyfodol sicrhau bod y data a gaiff eu cymharu yn debyg-am-debyg. Daw'r ffigur o 64% o arolwg cynhyrchwyr sydd â ffin cyfeiliornad a gwybodaeth gyfyngedig hefyd am ansawdd/deunydd a wrthodwyd wedi hynny. Mae angen ystyried hyn os defnyddir ffynhonnell ddata wahanol ar gyfer monitro cynnydd yn y dyfodol h.y. os defnyddir system olrhain gwastraff electronig yna dylid addasu ffigurau arolwg hanesyddol i adlewyrchu amcangyfrifon o wrthodiadau a chyfyngiadau eraill (posibl) o ran y ddwy set ddata, ac ystyried hynny.

[13] Rhaid cymharu data tebyg am debyg cyn belled ag y bo modd ac mae angen ystyried gwahaniaethau mewn ffynonellau data. Mae'n werth nodi bod y dangosydd hwn ar hyn o bryd yn defnyddio cyfuniad o ddata amcangyfrifedig arolygon (Diwydiannol a Masnachol ac Adeiladu a Dymchwel) a data cartrefi (WasteDataFlow).

[14] Omnibws Cymru (2023). SBW Deddfwriaeth Plastigau Untro / Ailgylchu ymhlith Busnesau Llywodraeth Cymru

[15] Omnibws Cymru (2023). SBW Deddfwriaeth Plastigau Untro / Ailgylchu ymhlith Busnesau Llywodraeth Cymru Agweddau'r cyhoedd ar y newidiadau i ailgylchu yn y gweithle a'r gwaharddiad ar blastigau untro (crynodeb) | LLYW. CYMRU

[16] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/693534/survey-of-commerical-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018.pdf

[17] Gyda chafeat y gall cyfradd Troi Gwastraff yn Ynni (EfW) fynd i fyny i ddechrau (wrth i wastraff gael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi) cyn iddo ostwng yn y pen draw. Mae'n werth nodi hefyd bod llosgyddion trefol yng Nghymru yn debygol o gael gwastraff o ffynonellau eraill i gynnal

3) ***Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023***

- Llai o waredu gwastraff bwyd i garthffosydd
- Cydymffurfiaeth lawn â'r gwaharddiad dair blynedd ar ôl iddo ddod i rym.

9.4 Bydd y prif ganlyniadau yn cael eu monitro drwy gyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol, yn dibynnu ar natur y canlyniad ac argaeledd ffynhonnell ddata briodol.

9.5 Ar hyn o bryd rhagwelir mai'r System Olrhain Gwastraff fydd y brif ffynhonnell ddata feintiol (o 2025 ymlaen) ar gyfer monitro canlyniadau sy'n gysylltiedig â gofynion gwahanu a gwahardd llosgi a dodi ar safleoedd tirlenwi. Bwriedir i'r System Olrhain Gwastraff gael ei defnyddio yn brif ffynhonnell ddata i olrhain lefelau ailgylchu ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol yng Nghymru o 2025 ymlaen. Fodd bynnag, lle bo angen, bydd yn cael ei gefnogi gan ffynonellau data atodol megis cofnodion a gesglir o fewn WasteDataFlow, Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros becynwaith, Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS), arolygon gwastraff ac ailgylchu CNC a data 'ffurflenni safleoedd' CNC.

9.6 Mae disgwyl i dimau iechyd yr amgylchedd yr Awdurdod Lleol arwain gwaith monitro'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffosydd. Bydd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn gallu adrodd am nifer y safleoedd, allan o'r rhai y maent yn ymweld[18] â hwy, y maent yn canfod sy'n gwaredu gwastraff bwyd i garthffos. Er enghraifft, bydd arolygiadau yn dangos a oes llifanydd sinc/offer malu gan safle ar gyfer gwastraff bwyd gyda thystiolaeth o waredu bwyd, a/neu os nad oes tystiolaeth o fin/casgliad ar gyfer gwastraff bwyd.

9.7 Gellir monitro'r canlyniadau na ellir eu mesur gan ddefnyddio data o'r System Olrhain Gwastraff a/neu ffynonellau data atodol a restrir uchod, drwy gymysgedd o dystiolaeth ansoddol a meintiol arall, gan gynnwys arolygon a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru, arolygiadau ac adborth uniongyrchol oddi wrth y busnesau.

---

porthiant ac aros yn weithredol. Daw data 2018 o'r arolwg gwastraff diwydiannol a masnachol felly mae'n debygol hefyd fod y rhain wedi'u tanamcangyfrif lle nad oedd y tynged yn hysbys (e.e. adroddwyd fel 'trosglwyddo/trin') ac anfonwyd gwastraff yn anuniongyrchol i'w losgi fel tirlenwi e.e. gwastraff a wrthodwyd o ffrydiau ailgylchu i'w waredu (na fyddai cynhyrchwyr wedi gwybod amdanynt pan gawsant eu harolygu). Felly, mae ffigurau 2018 wedi'u hamcangyfrif pan adroddwyd bod gwastraff wedi'i anfon yn uniongyrchol i'w waredu o'r arolwg.

[18] Bydd amlder yr arolygiadau gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn amrywio yn dibynnu ar y math o safle sy'n cael ei arolygu, gyda'r amlder yn dibynnu ar y risgiau i iechyd y cyhoedd a achosir gan bob busnes. Er na fydd rhai busnesau risg isel iawn yn cael eu harolygu o bosibl, gallai safle busnes risg uchel gael ei arolygu bob 6 mis. Rhagdybir y bydd pob arolygiad yn rhan o arolygiad iechyd yr amgylchedd sy'n bodoli eisoes a gynhelir gan un arolygydd awdurdod lleol.